

Cofnodion cyfarfod i drafod sefydlu pwyllgor ar gyfer Toiledau Cyhoeddus, Llangernyw yn Estyniad Bro Cernyw nos Fercher Mawrth 2il 2016.

Croesawyd pawb gan Gwynfor Davies, cadeirydd y Cyngor Cymuned.

Ymddiheuriadau: Daryl, Pamela, Elen Edwards, Elwen.

Presennol: Gwynfor Davies, Ifor Edwards, Dilwyn Roberts, Olwen Evans, Enid Davies, Lynda Kettle ac Ann Vaughan.

Cynigwyd Ann Vaughan fel cadeirydd a Lynda Kettle fel trysorydd.

Yna buom yn trafod enwau ar gyfer ysgrifennydd. Llinos, Non, Arfon, Diane. Cytunodd pawb oedd yn bresennol i fod ar y pwyllgor.

Enwyd y canlynol fel enwau y buasem yn medru gofyn iddynt yn ychwanegol i fod ar y pwyllgor :-Hywel Wms, Emrys Wms, Bethan Jackson, Louise ac Andy. Mae Dilwyn am fod arno fel rhan o'i swydd fel Cynghorydd Sir. Mi fyddwn yn trafod os y bydd cadeirydd y Cyngor Cymuned arno pan fydd y Cyfarfod blynyddol.

Pasiwyd i enwi'r pwyllgor yn "Menter Bro Cernyw".

Cyfansoddiad Mae Dilwyn wedi gofyn i Richard Jarvis cyfreithiwr y Cyngor i edrych ar y rhai roeddem wedi ei gael o'r blaen ac roedd yn meddwl fod y rhain yn addas i'r Grŵp eu datblygu.

Buom yn edrych drwy bob rhan ohonynt. Felly mae AV am wneud copiau yng Nghymraeg a Saesneg erbyn y cyfarfod nesaf i'w arwyddo.

Deallir fod yna £1,000 wedi cael ei glustnodi o Gronfa Bro Cernyw yn barod er diben y toiledau cyhoeddus.

Lynda i gael mandate o'r banc ar gyfer cael cyfri banc.

Mae Dilwyn am holi yn y Cyngor faint yw gwerth yr adeilad ar gyfer ei yswirio a beth arall rydym ei angen i gwblhau y trosglwyddiad pan ddaw'r amser i wneud hynny.

Ann i holi Berwyn Evans o Fenter Bro Aled a chadeirydd Toiledau Llandrillo i ni gael gwybod sut mae nhw'n gweithredu ac a oedd yna unrhyw anawsterau ddaethont ar ei draws. Gyda pwy maent yn yswirio.

Dyweddodd Olwen fod Gwynfor yn fodlon agor y toiledau yn y bore ar ei ffordd i'w waith.

Roedd Enid yn mynegi pryder gyda'r railings newydd sydd yn gwynebu drws y toiledau anabl/merched rhag ofn i blant ddringo arnynt a brifo a pasiwyd ein bod yn edrych arnynt.

Fe fydd yn rhaid cael asesiad risg hefyd.

Pwyllgor nesaf Mawrth 16eg am 7.30pm yn Estyniad Bro Cernyw